# Cystadleuaeth Iaith Genedlaethol 2026

**16-20 Tachwedd 2026**

## Pecyn Rhanddeiliaid NLC

Mae GCHQ yn cynnal ei phumed Cystadleuaeth Iaith Genedlaethol flynyddol (NLC) ym mis Tachwedd 2026. Y nod yw hyrwyddo dysgu ieithoedd mewn ysgolion ac annog disgyblion i fynd i'r afael â ieithoedd ar lefel TGAU/N5. Un o bwrpasau statudol GCHQ yw cynghori'r llywodraeth a chymdeithas yn ehangach ar ieithoedd; yn sgil hynny mae'r NLC yn rhan o'n cylch gwaith er mwyn hyrwyddo ieithoedd. Mae'n digwydd ochr yn ochr â'n rhaglen lwyddiannus ym maes allgymorth ysgolion ar gyfer ieithoedd. Bwriad yr NLC yw ysbrydoli dysgu ieithoedd ledled y DU, gan roi sylw penodol i ysgolion mewn ardaloedd cymdeithasol-amrywiol, drwy wneud ieithoedd yn hwyl.

Y llynedd, bu i dros 2000 o dimau o ysgolion ledled y DU gymryd rhan yn NLC 2025. Yn dilyn wythnos o dimau yn cwblhau amrywiaeth o heriau rhyngweithiol yn seiliedig ar ieithoedd, cyhoeddwyd yr enillydd ac fe'i gwahoddwyd i bencadlys GCHQ yn Cheltenham.

Ein cynllun yw cynnal yr NLC eto eleni, 16-20 Tachwedd 2026. Mae'r gystadleuaeth wedi'i hanelu at fyfyrwyr Blwyddyn 9 yng Nghymru a Lloegr, myfyrwyr Blwyddyn 10 yng Ngogledd Iwerddon a myfyrwyr S2 yn yr Alban, cyn iddynt ddewis eu hopsiynau TGAU neu N5. Mae gennym 12 categori enillwyr rhanbarthol, i gydnabod cyfraniadau rhagorol timau ledled y DU. Rydym hefyd wedi ehangu'r gystadleuaeth i gynnwys plant sy'n cael eu haddysgu gartref.

Cafodd y gystadleuaeth ei hysbysebu i ddechrau drwy wefan GCHQ NLC gan ofyn i ysgolion gofrestru eu diddordeb drwy e-bost os nad oeddent wedi cymryd rhan y llynedd. Mae diddordeb pob ysgol a gymerodd ran y llynedd wedi'i gofrestru'n awtomatig ar gyfer y gystadleuaeth eleni. Byddwn yn parhau i hysbysebu'r gystadleuaeth drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol GCHQ, ac rydym wedi gofyn i ysgolion roi'r gair ar led am y gystadleuaeth.

**Pryd?** 16-20 Tachwedd 2026
**At bwy y caiff y gystadleuaeth ei hanelu?** Blwyddyn 9 yng Nghymru a Lloegr, Blwyddyn 10 yng Ngogledd Iwerddon, ac S2 yn yr Alban – cyn dewis opsiynau TGAU ac N5.
**Ble?** Ar-lein o'u hystafelloedd dosbarth (e.e. amser cinio o dan oruchwyliaeth athrawon) neu gartref.
**Pam?** I annog angerdd am ddysgu ieithoedd ac amlygu'r sgiliau trosglwyddadwy niferus y gall dysgu iaith eu meithrin.

 Gall yr wybodaeth hon fod wedi'i heithrio o dan Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a gall fod wedi'i heithrio o dan ddeddfwriaeth arall y DU. Cyfeiriwch unrhyw ymholiadau FOIA i'r adran darddiadol.

# Cwestiynau Cyffredin

## Beth yw GCHQ?

Mae GCHQ yn un o dair Asiantaeth Gwybodaeth a Diogelwch y DU, ynghyd ag MI5 a'r Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Gyfrinachol (MI6).

Mae GCHQ yn amddiffyn y DU a'i dinasyddion rhag unigolion, grwpiau a gwledydd sy'n dymuno'n niweidio neu wneud difrod ariannol inni. Mae cudd-wybodaeth GCHQ yn cadw'n lluoedd arfog yn ddiogel yn y maes, ac yn helpu asiantaethau gorfodi'r gyfraith i atal gweithgarwch terfysgol a throseddau difrifol a threfnedig.

## Beth yw'r Gystadleuaeth Iaith Genedlaethol?

Mae cystadleuaeth GCHQ wedi'i hanelu at fyfyrwyr Blwyddyn 9 yng Nghymru a Lloegr, myfyrwyr Blwyddyn 10 yng Ngogledd Iwerddon a myfyrwyr S2 yn yr Alban. Mae'n cynnwys amrywiaeth o heriau hwyliog, trochol, ar thema iaith, ar wahanol lefelau o anhawster, ar blatfform rhithwir. Ein nod yw bod disgyblion yn mwynhau defnyddio eu hieithoedd i ddatrys y posau, ac yn cael eu hysbrydoli i barhau i ddysgu ieithoedd ar lefelau TGAU ac N5. Bydd pob disgybl, gan gynnwys plant sy'n cael eu haddysgu gartref, yn gallu cymryd rhan. Nid oes angen unrhyw wybodaeth flaenorol, dim ond awch am ieithoedd!

Bydd NLC 2026 yn ddigwyddiad wythnos yn ystod mis Tachwedd 2026. Bydd ysgolion (neu gynrychiolwyr sy'n oedolion, ar ran plant sy'n cael eu haddysgu gartref) yn gallu cofrestru ar gyfer y digwyddiad ymlaen llaw, ac enwebu timau o hyd at bedwar disgybl i gymryd rhan. Gallant gyflwyno cynifer o dimau o bedwar ag y dymunant. Yna gall timau fewngofnodi i'r platfform yn ystod wythnos y gystadleuaeth (yn ystod amser cinio dan oruchwyliaeth athrawon neu yn eu hamser eu hunain gyda'r nos) i roi cynnig ar y posau ar y platfform. Byddant yn mynd i'r afael ag amrywiaeth o bosau sy'n gysylltiedig ag iaith – o rai hawdd i rai eithriadol o anodd – a bydd yr ieithoedd yn cynnwys rhai Ewropeaidd a rhai eraill o bob cwr o'r byd, ac hyd yn oed ieithoedd gwneud! Dros gyfnod o bum niwrnod, byddant yn cystadlu i ennill pwyntiau ar eu taith iaith. Bydd cyfanswm yn cael ei gyfrifo ar ddiwedd yr wythnos gan bennu eu safle ar dabl cynghrair cenedlaethol. Bydd athrawon hefyd yn gallu ffurfweddu'r tabl cynghrair i ddangos eu timau nhw yn unig, er mwyn creu elfen o gystadleuaeth o fewn yr ysgol. Y tîm â'r nifer uchaf o bwyntiau ar ddiwedd yr wythnos sy'n ennill!

Bydd y rhai a fydd wedi mynegi diddordeb yn cael eu gwahodd i gofrestru timau ar gyfer yr NLC tuag at ddiwedd mis Medi. Yn ystod y gystadleuaeth ei hun, byddant yn gallu gweld sut mae eu timau'n gwneud drwy dabl cynghrair ar y platfform. Bydd y tîm buddugol a'r enillwyr rhanbarthol yn cael eu cyhoeddi yn fuan ar ôl y gystadleuaeth. Bydd y tîm buddugol ar draws y DU yn cael ei wahodd i GCHQ yn Cheltenham, i dderbyn y tlws.

SWYDDOGOL Gall yr wybodaeth hon fod wedi'i heithrio o dan Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a gall fod wedi'i heithrio o dan ddeddfwriaeth arall y DU. Cyfeiriwch unrhyw ymholiadau FOIA i'r adran darddiadol.

## Sut allaf gymryd rhan?

Hoffem gael cymorth i roi cyhoeddusrwydd mor eang â phosibl i’r Gystadleuaeth Iaith Genedlaethol drwy ysgolion a thrydydd partïon. Rydyn ni’n awyddus i lawer gymryd rhan ym mhob rhanbarth o’r DU, ac mewn ystod mor eang â phosibl o ysgolion, yn enwedig rhai mewn ardaloedd sydd ag amgylchiadau economaidd-gymdeithasol heriol neu nifer uchel o ddisgyblion sy’n siarad ieithoedd etifeddol. Byddem hefyd yn gwerthfawrogi cefnogaeth i roi cyhoeddusrwydd i'r cyfle ymhlith y gymuned addysg yn y cartref.

Er mwyn cefnogi'r prosiect, byddai'n ddefnyddiol pe gallech drosglwyddo ein negeseuon am yr NLC drwy eich cysylltiadau ym myd addysg, a thrwy gylchlythyrau, bwletinau neu'r cyfryngau cymdeithasol. Mae croeso ichi hefyd rannu'r pecyn cymorth hwn â'ch rhwydweithiau.

Os ydych chi’n athro ac â diddordeb gweld eich ysgol yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth, neu os hoffech gynrychioli plant sy’n cael eu haddysgu gartref, cysylltwch â blwch post NLC nlc@gchq.gov.uk – byddwn yn eich rhoi ar ein rhestr bostio, gan sicrhau eich bod yn cael yr holl wybodaeth am y gystadleuaeth, a chyfarwyddiadau am sut i gofrestru maes o law.

# Enghreifftiau o gynnwys hyrwyddo

### Testun a awgrymir ar gyfer cylchlythyrau:

Mae GCHQ, un o asiantaethau cudd-wybodaeth y DU, yn cynnal ei Gystadleuaeth Iaith Genedlaethol (NLC) ym mis Tachwedd 2026. Mae croeso i bob disgybl Blwyddyn 9 (Cymru a Lloegr) / S2 (yr Alban) / Blwyddyn 10 (Gogledd Iwerddon) gymryd rhan, gan gynnwys plant sy’n cael eu haddysgu gartref.

Gall ysgolion/grwpiau gyflwyno unrhyw nifer o dimau o hyd at bedwar aelod. Dros gyfnod o bum niwrnod, bydd y timau’n cystadlu i sgorio pwyntiau drwy fynd i’r afael ag amrywiaeth o heriau hwyliog, trochol ar thema iaith. Cynhelir yr heriau, sy’n amrywio o ran pa mor anodd ydynt, ar blatfform rhithwir. Nid oes angen unrhyw wybodaeth flaenorol, dim ond awch am ieithoedd. Bydd y tîm buddugol, sydd â’r nifer uchaf o bwyntiau ar ddiwedd y gystadleuaeth, yn cael ei wahodd i Bencadlys GCHQ yn Cheltenham, i dderbyn y tlws!

Athrawon, neu gynrychiolwyr sy’n oedolion (ar gyfer plant sy’n cael eu haddysgu gartref), e-bostiwch nlc@gchq.gov.uk i gofrestru eich diddordeb. Byddwch wedyn yn cael eich ychwanegu at restr bostio GCHQ NLC, gan sicrhau eich bod yn derbyn yr holl wybodaeth am y gystadleuaeth o hyn ymlaen!

SWYDDOGOL Gall yr wybodaeth hon fod wedi’i heithrio o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a gall fod wedi’i heithrio o dan ddeddfwriaeth arall y DU. Cyfeiriwch unrhyw ymholiadau FOIA i’r adran darddiadol.

**Testun a awgrymir ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol**:

Mae @GCHQ yn cynnal ei Gystadleuaeth Iaith Genedlaethol (NLC) flynyddol ym mis Tachwedd eleni, ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9 (Cymru a Lloegr) / S2 (yr Alban) / Blwyddyn 10 (Gogledd Iwerddon) ledled y wlad, gan gynnwys plant sy'n cael eu haddysgu gartref. I gael mwy o wybodaeth ynghylch #NLC2026 ac i gael eich rhoi ar y rhestr bostio, e-bostiwch nlc@gchq.gov.uk!

- Facebook
- X
- Instagram
- LinkedIn

SWYDDOGOL Gall yr wybodaeth hon fod wedi'i heithrio o dan Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a gall fod wedi'i heithrio o dan ddeddfwriaeth arall y DU. Cyfeiriwch unrhyw ymholiadau FOIA i'r adran darddiadol.

## Testun a awgrymir ar gyfer poster hysbysebu

